# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i’w hateb ar 30 Mehefin 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i’r Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o'r costau teithio ar gyfer ei chyfarfod gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yn Llundain ar 9 Mehefin 2010. (WAQ56145)

***Rhoddwyd ateb ar 13 Gorffennaf 2010***

Teithiais o Gaerdydd ar y trên gyda swyddogion ond fe'i terfynwyd yn Swindon oherwydd methiant pŵer rhwydwaith mawr yn ardal Didcot. Cafodd trefniadau eraill eu gwneud ar gyfer gweddill y daith i gwrdd â'r Prif Ysgrifennydd. Roedd fy nghyfran i o'r costau teithio fel a ganlyn:

| Teithio | Cost (£) |
|---|---|
| Trên - Dosbarth Safonol<br>• Caerdydd i Paddington (terfynwyd yn Swindon)<br>• Paddington i Gaerdydd | <br>Dim*<br>23.10 |
| Tacsi (Swindon i Heathrow) | 40 |
| Heathrow Express (i Paddington) | 18.80 |
| Gwasanaeth Ceir y Llywodraeth (Paddington i'r Trysorlys ac yn ôl) | 24.40 |
| **Cyfanswm** | **106.30** |

* Mae pris tocyn y daith allan, sef £91.50, wedi cael ei ad-dalu.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod y swm llawn o £9 miliwn o gyllid a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer rhaglen Adfywio'r Barri ar gael o hyd ar gyfer y cynllun. (WAQ56144) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio***

***Rhoddwyd ateb ar 13 Gorffennaf 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies):** Ysgrifennaf atoch yn dilyn eich Cwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad, 'a wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod y swm llawn o £9 miliwn o gyllid a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer rhaglen Adfywio'r Barri ar gael o hyd ar gyfer y cynllun.' Mae'r cwestiwn wedi cael ei drosglwyddo i mi gan fod y mater yn ymwneud â'm portffolio i.

Nododd cyllideb Llywodraeth y DU raglen o doriadau sylweddol mewn gwariant cyhoeddus yn 2010-11. Roedd y cyhoeddiad hwn yn cwmpasu goblygiadau'r gostyngiadau hynny yn y gyllideb ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad. Rydym wedi bod yn glir bob tro bod yn rhaid i'r diffyg yn y gyllideb leihau ac y byddwn yn chwarae ein rhan yn hynny. Fodd bynnag, teimlwn y gallai torri'r diffyg yn ormodol ac yn rhy gyflym niweidio'r economi a gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn edrych yn fanwl ar oblygiadau cyhoeddiad Llywodraeth y DU ac yn hyderus y byddwn yn gallu amlinellu'r dull gweithredu rydym yn

bwriadu ei roi ar waith cyn toriad yr haf. Ni fyddwn yn gwybod ein hunion ddyraniad ar gyfer y dyfodol tan i ganlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gael ei gyhoeddi yn yr hydref.
Mae'r £9 miliwn o gyllid ar gyfer Ardal Adfywio'r Barri yn rhan o raglen adfywio ehangach ledled Cymru. Bydd cyllid yn y dyfodol yn rhan o'r adolygiad cyffredinol o'n hymrwymiadau cyllideb. Gallai hyn gynnwys amserlenni i ddyrannu adnoddau a darparu prosiectau. Fodd bynnag, hyd nes y caiff hyn eui gwblhau nid yw'n bosibl sôn yn fanwl am raglenni penodol.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o bobl oedd â swyddi bwrdd ar yr hen Fyrddau Iechyd Lleol y bu'n rhaid creu swyddogaethau newydd ar eu cyfer, nad oeddent yn bodoli cyn mis Hydref 2009, ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad fesul Bwrdd Iechyd Lleol. (WAQ56135)

***Rhoddwyd ateb ar 07 Gorffennaf 2010***

Ni 'chrëwyd' unrhyw swyddi ar gyfer cyn Swyddogion Gweithredol - mae swyddi newydd a strwythurau sefydliadau newydd wedi'u sefydlu i adlewyrchu anghenion y Byrddau Iechyd Lleol newydd.
Mae'r penodiadau i bob swydd wedi bod yn destun proses recriwtio gystadleuol yn unol â darpariaethau'r Polisi Newid Sefydliadol ar gyfer GIG Cymru.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o bobl a gyflogir ar hyn o bryd gan y GIG ond sydd ar secondiad gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a sut mae hyn yn cymharu â deuddeng mis yn ôl. (WAQ56136)

***Rhoddwyd ateb ar 13 Gorffennaf 2010***

Roedd 73 o bobl yn cael eu cyflogi gan y GIG ac wedi'u secondio i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 28 Mehefin 2009. Y ffigur ar 28 Mehefin 2010 yw 35.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu ffigurau ar gyfer nifer y staff cynorthwyol a chlercyddol yn GIG Cymru ar gyfer pob blwyddyn er 2005. (WAQ56137)

***Rhoddwyd ateb ar 13 Gorffennaf 2010***

Mae niferoedd staff gweinyddu ac ystadau a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG o 2005 hyd 2008 ar gael yn:

http://www.statscymru.cymru.gov.uk/ReportFolders/reportfolders.aspx?IF_ActivePath=P,280,1274,3596,3597

Nid yw ffigurau manwl ar gyfer 2009 ar gael ar hyn o bryd.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn sgil cwtogi niferoedd staff cynorthwyol a chlercyddol wrth ad-drefnu'r GIG, pa gyfran oedd oherwydd a) dyrchafiad b) ymddeoliad ac c) dileu swyddi gwirfoddol. (WAQ56138)

***Rhoddwyd ateb ar 07 Gorffennaf 2010***

Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A yw'r GIG ar y llwybr cywir i ddwyn deintyddion dan adain y Byrddau Iechyd Lleol erbyn diwedd haf 2010 ac os nad yw, pryd fydd hyn yn debygol o ddigwydd. (WAQ56139)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Gorffennaf 2010***

Mae'r mwyafrif o ddeintyddion yn ymarferwyr hunangyflogedig annibynnol sy'n rhydd i ddewis p'un a ydynt yn rhoi cyfran o'u hamser i ddarparu triniaeth GIG ar ran Byrddau Iechyd Lleol ai peidio. Felly gallant ddarparu gofal y GIG yn unig, gweithio'n gyfan gwbl y tu allan i'r GIG, neu ddarparu cymysgedd o ofal deintyddol GIG a gofal preifat, sef y dewis cyffredin. Nid oes gennym unrhyw bwerau gorfodi o ran y mater hwn.

Yn ogystal â chontractwyr annibynnol, mae nifer o ddeintyddion yn gweithio yn y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ac yn gyflogeion y GIG.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pryd fydd yr adroddiad gan y grŵp gorchwyl a gorffen ar orthodeintyddiaeth yn cael ei gyhoeddi. (WAQ56140)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Gorffennaf 2010***

Bydd yr Is-grŵp Orthodonteg yn cyflwyno adroddiad i mi'r haf hwn. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar wefan y Prif Swyddog Deintyddol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Sawl nyrs ysgol cyfwerth ag amser llawn sydd ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol o'i gymharu â'r nifer sy'n angenrheidiol i fodloni ymrwymiadau'r Gweinidog yn y ddogfen Cymru'n Un. (WAQ56141)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The table below provides a breakdown of these figures by Health Board.

| Health Board | WTE school nurses (at 01/07/10) | Number of new nursing post required to meet the One Wales commitment (at 01/07/10) |
|---|---|---|
| Abertawe Bro Morgannwg University LHB | 15 | 9 |
| Aneurin Bevan LHB | 20.5 | 12 |
| Betsi Cadwaladr University LHB | 31.5 | 16 |
| Cardiff and Vale University LHB | 18.8 | 0 |
| Cwm Taf LHB | 25.98 | 0 |
| Hywel Dda LHB | 20 | 6 |
| Powys Teaching LHB | 8.24 | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| **Wales** | **140.02** | **44** |

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn ateb y Gweinidog i WAQ56111, ym mha ffyrdd y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn methu â chydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd. (WAQ56142)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn ateb y Gweinidog i WAQ56143, pa gamau y mae hi'n eu cymryd i sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd fel mater o frys. (WAQ56143)

***Rhoddwyd ateb ar 07 Gorffennaf 2010***

Nid yw 15 o swyddi yn yr Adran Drawma ac Orthopedeg a Llawdriniaeth Gyffredinol yn cydymffurfio â'r Oriau Gwaith oherwydd swyddi gwag sydd eisoes yn y rotâu. Cynhelir y cyfweliadau i lenwi'r swyddi gwag yn y rotâu hyn yn yr ychydig wythnosau nesaf. Mae fy swyddogion yn monitro cydymffurfiaeth cyffredinol â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd yn rheolaidd.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Sawl achos o ddileu swyddi a welwyd yn y GIG ers mis Hydref 2009 drwy'r Cynllun Rhyddhau Gwirfoddol. (WAQ56146)

***Rhoddwyd ateb ar 07 Gorffennaf 2010***

Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Jeff Cuthbert (Caerffili):** Sawl pecyn sgrinio canser y coluddyn sydd wedi'u dosbarthu fel rhan o raglen sgrinio canser y coluddyn Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad daearyddol. (WAQ56147)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Gorffennaf 2010***

Dechreuodd rhaglen sgrinio canser y coluddyn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Hydref 2008. Yn ystod blwyddyn lawn cyntaf y rhaglen rhoddwyd 220,761 o becynnau i 195,633 o bobl. Y rheswm am y gwahaniaeth yn y niferoedd y gofynnir i rai pobl gymryd prawf dilynol os yw canlyniad y prawf cyntaf yn amwys.

Dosberthir y pecynnau ar sail oedran y cleifion, nid lleoliad daearyddol. Felly ni chedwir gwybodaeth yn ganolog am leoliadau daearyddol yr unigolion sydd wedi'u profi.